

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2019

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch archebu brechlynnau fflw ar gyfer tymor 2019-20

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**

Meddygon Teulu  
Fferyllwyr  
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau  
lechyd

**Er gwybodaeth:**

Cyfarwyddwyr Meddygol,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd,  
lechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau  
Ataliadwy, lechyd Cyhoeddus Cymru  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:**

Dr Marion Lyons, Uwch-swyddog Meddygol a Chadeirydd Grŵp Imiwneiddio Cymru

**Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu lechyd, Adran lechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,  
Caerdydd. CF10 3NQ E-bost: HealthProtection@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gyfaill,

Diolch i chi am eich cymorth parhaus i gynyddu'r nifer sy'n cael y brechlyn ffliw ac i ddiogelu rhagor o bobl rhag y clefyd ataliadwy hwn.

Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2018) 045 dyddiedig 6 Tachwedd 2018, rhoddwyd canllawiau ynghylch archebu brechlynnau ffliw ar gyfer y tymor 2019-20, gan gynnwys brechlynnau nad oeddent wedi eu trwyddedu ar y pryd. Mae'r cylchlythyr ar gael yma:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/whc2018-045cy.pdf>

Roedd y Cylchlythyr yn datgan bod y brechlynnau a gafodd eu hargymell ar gyfer tymor 2018-19 yn parhau i gael eu hargymell ar gyfer tymor 2019-20. Mae'r brechlynnau canlynol wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a gellir eu harchebu i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig:

- Mae'r **brechlyn ffliw pedwarfalent (QIVe)** safonol wedi'i feithrin o wy yn cael ei argymell ar gyfer unigolion dan 65 oed mewn grwpiau clinigol agored i niwed a grwpiau cymwys eraill, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen.
- Mae'r **brechlyn ffliw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV)** yn cael ei argymell ar gyfer unigolion 65 oed ac yn hŷn.

Ar ben hynny, fe gafodd y **brechlyn ffliw pedwarfalent wedi'i feithrin mewn celloedd (QIVc), Flucelvax® Tetra**, ei drwyddedu i'w ddefnyddio yn y DU ym mis Rhagfyr 2018. Roedd fy llythyr ar 20 Rhagfyr 2018 yn cadarnhau hyn. Mae'r QIVc wedi'i drwyddedu ar gyfer Unigolion naw oed ac yn hŷn. Os bydd meddygfa yn bwriadu prynu brechlyn QIVc yn unig, bydd angen iddynt gael brechlyn gwahanol ar gyfer y nifer bach o blant cymwys rhwng 6 mis ac 8 mlwydd oed lle cynghorir yn erbyn defnyddio LAIV (brechlyn ffliw byw wedi'i wanhau).

Mae'r **brechlyn trivalent dos uchel (TIV-HD)** hefyd bellach wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio yn y DU. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi cynghori ei fod yr un mor addas i'w ddefnyddio ar gyfer y rhai 65 oed ac yn hŷn. Fodd bynnag, mae cryn dipyn yn uwch ei bris na brechlynnau eraill sy'n addas ar gyfer y grŵp oedran hwn ac o ganlyniad, nid yw'r brechlyn TIV-HD yn cael ei argymell ar gyfer ei ddefnyddio'n gyffredinol yn rhaglen GIG Cymru.

Ceir crynodeb a gwybodaeth am gostau brechlynnau yn Atodiad A.

Yn gywir



**Dr Marion Lyons**  
**Uwch-swyddog Meddygol a Chadeirydd Grŵp Imiwneiddio Cymru**

## Atodiad A

Cynnyrch	Addas i'w defnyddio ar gyfer oedolion mewn grwpiau clinigol agored i niwed / oedolion cymwys dan 65 oed	Addas i'w defnyddio ar gyfer oedolion 65 oed ac yn hŷn	Statws trwyddedu	Argymell ei ddefnyddio yn 2019-20	Cost i'r GIG fesul dos *Gweler y ddolen am ragor o fanylion ynghylch brechlynnau, costau a chyflenwyr
Brechlynnau trivalent safonol (TIVe)	NA	NA	Trwyddedig	NA	DDIM YN BERTHNASOL.
Brechlynnau Pedwarfalent safonol o wyau (QIVe)	YDI	NA	Trwyddedig	YDI	Cynnyrch ar gael am £8.00 a £9.94
Brechlyn trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV)	NA	YDI	Trwyddedig (unigolion 65 oed a hŷn)	YDI	£9.79
Brechlyn pedwarfalent wedi'i feithrin mewn celloedd (QIVc)	YDI	YDI	Trwyddedig (unigolion 9 oed a hŷn)	YDI	£9.94
Brechlyn trivalent dos uchel (TIV-HD)	NA	YDI*	Trwyddedig (unigolion 65 oed a hŷn)	NA*	£20.00

\*yn sgil y gost uchel, nid yw'r brechlyn hwn yn cael ei argymell ar gyfer ei ddefnyddio'n gyffredinol.

Ceir rhestr o brisiau a chyflenwyr y brechlynnau yma:

<https://bnf.nice.org.uk/medicinal-forms/influenza-vaccine.html>.